
# Llythyrau Milwyr o'r *Drych*

## *a deunydd arall am y Rhyfel Cartref*

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Llythyrau Milwyr o'r *Drych*
# *a deunydd arall am y Rhyfel Cartref*

Evan, 'Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 7 Mawrth 1863
D Ll J, 'Llythyr Milwr Cymreig', *Y Drych*, 14 Mawrth 1863
Ioan Emlyn, 'Llythyr Milwr Cymreig', *Y Drych*, 14 Mawrth 1863
Howell G. Hopkins, *Y Drych*, 28 Mawrth 1863
John W. Rowlands, 'Talfyriad o lythyr oddiwrth Filwr Cymreig', *Y Drych,* 4 Ebrill 1863
John W. Hughes, 'Llythyrau Milwyr Cymreig', *Y Drych,* 11 Ebrill 1863
D Ll J, 'Llythyrau Milwyr Cymreig', *Y Drych,* 11 Ebrill 1863
James J. Jones, 'Llythyrau Milwyr Cymreig', *Y Drych,* 11 Ebrill 1863



## Oddiwrth Filwyr Cymreig.

Murfreesboro, Tenn., Ion. 9, 1863.

HOFFUS BERTHYNASAU,—Defnyddiaf y mynydau presenol i ysgrifenu ychydig o'n hanes i chwi yn ystod y pymthegnos diweddaf, yn ystod pa amser y gwelais ac y dyoddefais twyaf o galedi a deimlais yn ystod fy oes o'r blaen.

Ar y 26ain o'r mis diweddaf, cychwynasom o fewn pedair milltir o dref Nashville mewn cyfeiriad Deheuol. Yr oedd yn bwrw gwlaw yn drwm iawn, ac o ganlyniad y ffordd yn anhawdd iawn ei theithio.

Dranoeth, gorfu i ni fyned ar hyd *rhyw* groes ffordd er cyrhaedd Pike arall. Yr oedd y canoedd taranau o'n blaenau yn ein sicrhau fod brwydr yn cael ei hymladd. Yr oeddym yn gorfod myned ar haner redeg dros *fences* a thrwy gaeau, a'r mwd hyd haner ein coesau. Ychydig cyn nos dechreuodd dywallt y gwlaw drachefn,

Evan, 'Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 7 Mawrth 1863

[o Murfreesboro]

nes yr oeddym yn ei deimlo yn rhedeg rhwng y croen a'r croen. Gosodwyd ni mewn brwydr linell ar fryn bychan yn ymyl y ffordd, ac yno y buom am tua dwy awr o amser yn disgwyl y gelyn. Dychwelasom ychydig yn ein holau i ddarn o goed, ac wedi sticio ein gynau yn y ddaiar, ym-[illegible] a ni ar ol crug o rails, ac arosasom wrth y [illegible] trwy y nos, heb ddim cysgod drosom ond y mwg.

Dranoeth, sef y Sabboth, yr oedd yn ddiwrnod brâf iawn; ond wedi i ni barotoi pob peth yn gysurus er cael ychydig o gwsg yr ail noson, ychydig cyn nos, wele orchymyn i fod yn barod i *farchio* mewn pum' mynyd, a theithiasom y noson hono hyd 11 o'r gloch heb ddim bwyd yn ein boliau, na dim chwaith yn ein *haversacks*.

Dranoeth, sef y 29ain, yr oeddym i'n gweled mewn brwydr-linell yn ymyl y Murfreesboro Pike —milwyr wrth y miloedd i'w gweled yn symud yma a thraw, a'r cyflegrau yn bytheirio tân a phlwm i rengau y gelyn. Wedi nos, cafodd ein brigâd ni, sef pedair catrawd, orchymyn i fyned ar hyd rhyw groesffordd er cyrhaedd Jefferson ville Pike, gyda bwriad ond odid i ymosod ar aden dde y gelyn dranoeth. Gorphwysasom dros nos yn ymyl y Pike, a deallem fod y gelyn wedi llosgi pont oedd dros afon fechan o'n blaenau, er rhwystro ein mynediad. Tua chanol dydd, cafodd Cwmni C orchymyn i fyned ar *picket*, ac wedi myned ychydig rwdau oddiwrth y Camp, gwelem gynhwrf i mewn yn y *train* wagenni oedd yn ein cyfarfod, a deallem fod gwyr ceffylau y *rebels*

Evan, 'Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 7 Mawrth 1863

Pike, gyda bwriad ond odid i ymosod ar
aden dde y gelyn dranoeth. Gorphwysasom dros
nos yn ymyl y Pike, a deallem fod y gelyn wedi
llosgi pont oedd dros afon fechan o'n blaenau, er
rhwystro ein mynediad. Tua chanol dydd, caf-
odd Cwmni C orchymyn i fyned ar *picket*, ac wedi
myned ychydig rwdau oddiwrth y Camp, gwel
em gynhwrf i mewn yn y *train* wageni oedd yn
ein cyfarfod, a deallem fod gwyr ceffylau y *rebels*
wedi ymosod arno. Ymaith a ni ar y *double quick*
i'w cyfarfod. Yr oeddynt yn dyfod nerth carnau
eu ceffylau er ceisio cymeryd yr holl gerbydres,
ac nis gwelsant ni nes i'n bwledi gwympo y rhai
blaenaf o honynt; darfu hyn wneyd iddynt gilio
yn eu holau mewn dyryswch. Ond pan welsant
nad oeddym ond ychydig o nifer, ail ymosodas
ant arnom. Ciliasom ninau yn ein holau i ymyl
ty oedd ar fryn bychan, ac yno y buom yn saethu
atynt am amser maith. Yr oedd yr holl gatrawd
i fyny erbyn hyn, a bu tanio brwd o bob ochr.—
Yr oedd y pellder rhyngom yn fawr, fel na
wnaeth bwledau y gelyn ddim niwed i ni, ond
cwympasom ni tua 83 o honynt hwy. Llosgas-
ant dros ugain o'n wageni, a chymerasant lawer
o'n dynion yn garcharorion—yn eu plith yr oedd
Robert Davies, mab Evan Davies, y Wesley. Yr
oedd nifer y gelynion yn 3,000; ac y mae ein
Cwmni ni wedi gwneuthur iddynt eu hunain
enw am eu dewrdra yn gwrthwynebu y fath lu:
mae yn beth rhyfedd iawn i ni ddianc oll yn ddi-
anaf.

Wedi treulio un noson arall yn y lle hwn, dy-

Evan, 'Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 7 Mawrth 1863

Wedi treulio un noson arall yn y lle hwn, dychwelasom yn ein holau ar hyd yr un ffordd ag y daethom ar hyd ddi, ond yn disgwyl ymosodiad bob mynyd. Yr oeddym yn gorwedd yn ymyl maes yr ymdrechfa nos Fercher, ac ambell i *shell* yn pasio yn ystod y nos er ein cadw yn effro.

Boreu ddydd Iau, sef y Calan, ail gyneuwyd y tân dinystrol gyda brwdfrydedd mawr. Yr oeddym yn gorfod symud ein sefyllfa yn aml yn ystod y dydd, o herwydd fod bwledau y gelyn yn dyfod yn rhy agos atom i ni fod yn gysurus.

Nos Calan, yr oedd ein Catrawd ni ar *picket*.—Yr oedd saethu grymus yn ystod y nos, ac yr oeddym yn meddwl wrth y twrf mawr oedd y *rebels* yn ei wneyd yn ystod y nos, eu bod am ein treio drachefn dranoeth, ac felly y bu, o herwydd gyda'r wawrddydd clywem gleciadau *muskets*, a rhuadau y canons, a bu raid i ni orwedd ar ein boliau ar y ddaiar y diwrnod hwnw, er mwyn i'r bwledau gael gwell cyfle i'n pasio, ac mewn gwirionedd i chwi yr oeddynt yn lled aml hefyd. Yr oedd yn bwrw gwlaw trwm trwy y dydd, ond er hyny yr oedd y powdr yn llosgi yn dda. Gyda bod yr haul yn myned i lawr, yr oedd y tanio yn cael ei ddyblu o bob ochr—ein *masked batteries* yn gwneuthur [illegible] yn rhengau y gelyn; bu yr ymladd law yn llaw amryw droion. Cymerasom ni lawer o'u canons, a'u dynion yn garcharorion. Cymerwyd hefyd un o'r [illegible]

Evan, 'Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 7 Mawrth 1863

...yn gysurus.

Nos Calan, yr oedd ein Catrawd ni ar *picket*.—Yr oedd saethu grymus yn ystod y nos, ac yr oeddym yn meddwl wrth y twrf mawr oedd y *rebels* yn ei wneyd yn ystod y nos, eu bod am ein treio drachefn dranoeth, ac felly y bu, o herwydd gyda'r wawrddydd clywem gleciadau *muskets*, a rhuadau y canons, a bu raid i ni orwedd ar ein boliau ar y ddaiar y diwrnod hwnw, er mwyn i'r bwledau gael gwell cyfle i'n pasio, ac mewn gwirionedd i chwi yr oeddynt yn lled aml hefyd. Yr oedd yn bwrw gwlaw trwm trwy y dydd, ond er hyny yr oedd y powdr yn llosgi yn dda. Gyda bod yr haul yn myned i lawr, yr oedd y tanio yn cael ei ddyblu o bob ochr—ein *masked batteries* yn gwneuthur galanas ofnadwy yn rhengau y gelyn; bu yr ymladd law yn llaw amryw droion. Cymerasom ni lawer o'u canons, a'u dynion yn yn garcharorion. Cymerwyd hefyd un o'u baner-ar, yr hon a gariai dau o'n dynion ni ar gefnau eu ceffylau nerth y carnau trwy ein rhengoedd.—Gorfu i'r gelyn gilio yn ol, a rhoddodd y tywyllwch amddiffynfa iddo dan y boreu. Ond gorfu i ni, *poor fellows*, orwedd ar y ddaiar oer a gwleb trwy y nos. Yr oedd yn tywallt y gwlaw o ddifrif trwy y nos, a ninau can wlyped ag y gwnai dwfr ni. Tranoeth a ddaeth, ond heb ddim tawelwch na chysur i ni. Ymladdwyd tipyn yn ystod y dydd, ond wedi iddi dywyllu y bu yr ymladd yn ofnadwy: gwnaeth y gelyn ei oreu wrth dynu ei anadliad olaf yn y lle, ond yr oeddym yn eu medi i lawr fel gwair; gyrasom hwynt yn eu holau, a thu draw i'w gwarchgloddiau. Y noson hono ffoisant ymaith, ac nid ydym wedi eu gweled eto, ond gwelais filoedd o'u meirw a'u clwyfedigion.

Evan, 'Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 7 Mawrth 1863

Dranoeth, sef y Sabboth, buwyd yn brysur yn claddu y meirw o'n hochr ni, a chefais inau gyfle i gerdded a gweled rhan helaeth o faes y gwaed. Yr oedd yn olygfa bruddglwyfus i'r pen, llawer o'r meirw a'u haelodau yn mhell oddi wrthynt, rhai a'u penau ymaith, eraill a'u hymenydd yn rhedeg allan, a rhai wedi eu tori yn eu canolau gan *Gannon balls*. Gwelais ganoedd o'r *rebels* yn gymysgedig a'n dynion ni; yr oeddynt oll wedi eu dilladu yn dda iawn, yn llawer gwell na'n dynion ni; yr oedd llawer o honynt yn fechgyn ieuainc iawn. Gadawsom ni y *rebels* i bydru ar wyneb y maes; a dydd Llun aethom yn mlaen trwy dref Murfreesboro, ac yma yr ydym yn gwersyllu yn ymyl y dref, a rhyddid genym i fyned a dyfod o honi pan y mynom. Mae hon yn dref fechan lled hardd, tua 30 milltir o Nashville. Mae y trigolion gan mwyaf wedi dianc. Pe buasai genyf fi awdurdod llosgwn yr holl le yn lludw. Mae yma lawer iawn o glwyfedigion y *rebels*. Bum yn ymddyddan a llawer o honynt; golwg druenus sydd arnynt.

Pan oedd yr ymladdfa yn cymeryd lle, ffodd y *teams* oedd yn cario ein bwyd ymaith i Nashville, fel y bu raid i ni ddyoddef ychydig o eisiau cyn iddynt ddyfod yn ol atom, ond yr oedd cig ceffylau meirw yn gorfod diwallu angen rhai o honom. Yr ydym ychydig yn fwy cysurus y dyddiau hyn, gan fod genym ein pabell i'n cadw rhag gerwin-

Evan, 'Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 7 Mawrth 1863


Pan oedd yr ymladdfa yn cymeryd lle, ffodd y *teams* oedd yn cario ein bwyd ymaith i Nashville, fel y bu raid i ni ddyoddef ychydig o eisiau cyn iddynt ddyfod yn ol atom, ond yr oedd cig ceffylau meirw yn gorfod diwallu angen rhai o honom. Yr ydym ychydig yn fwy cysurus y dyddiau hyn, gan fod genym ein pebyll i'n cadw rhag gerwinder yr hin. Mae y gauaf Deheuol wedi agor arnom, gwlawogydd lawer, a'r ffyrdd yn anhawdd eu teithio. Nis gwyddom am ba hyd yr aroswn yma—mae yn debyg na fyddwn yn hir iawn.—Bydd yn rhaid i ni fyned eto i chwilio am y gelyn, a'i yru allan o'i nyth. Nid oes gwybodaeth sicr i ba le yr aeth oddi yma—mae rhai yn barnu mai i Chattanooga, lle tua chan' milltir oddi yma, lle y bwriada wneyd *another stand*.

Ysgrifenais lythyr at fy mam ychydig ddyddiau yn ol, ond nis gwn a gafodd hi ef ai peidio; mae y *mail* yn lled anrhefnus yn awr. Ni chefais i yr un llythyr er ys amser maith. Nid wyf yn beio fy nghyfeillion am hyny, ond ein gelynion am dori y rheilffordd i fyny.

Mae Robert Roberts, bachgen fu yn gweithio ychydig gyda Owen Jones, Mona, y cynhauaf diweddaf, wedi ei gymeryd yn garcharor hefyd gan y *rebels*. Mae y gweddill o'r bechgyn Cymry, h. y. sydd yma, oll yn iach, ac wedi dangos eu hunain yn ddynion yn ystod y frwydr. Mae gwaed yr hen Frythoniaid gynt yn rhedeg yn gynes yn ngwthienau rhai o'r Cymry yma.

Gwelaf fod yn rhaid i mi derfynu yn bresenol, ond nis gwn a ellwch gael digon o ysgolor i ddarllen hwn ai peidio. Mae fy iechyd yn *first rate* o hyd, a diolch i Dduw am hyny. Dymunaf arnoch ysgrifenu yn ol yn fuan. Cofiwch fi at fy hen gyfeillion oll. Ydwyf eich nai, EVAN.

Evan, 'Oddiwrth Filwyr Cymreig', *Y Drych*, 7 Mawrth 1863



## Llythyr Milwr Cymreig.

Gwersyllfa ger Lake Providence,
Louisiana, Chwef. 9fed, 1863.

MR. GOLYGYDD:—Pan ysgrifenais atoch ddiweddaf yr oeddym yn guardio'r Mississippi Central R. R., gër Abbeville, Miss. Yr oeddem yn paratoi ein hunain i aros yno am beth amser.—Ond buan y cawsom wybod nad oes gan y milwr ddinas barhaus. Cymerwyd Holly Springs.—Daeth gorchymyn i adran McArthur i fyned yn ol ac agor y rheilffordd i Grand Junction ac oddiyno i Memphis. Aethom o Abbeville i Holly Springs mewn un diwrnod. Cyraeddasom yno tua 7 o'r gloch y nos mor flinedig fel na allwn o'r bron godi oddiar y ddaiar wedi eistedd ychydig. Boreu dranoeth daeth gorchymyn i'r 1st Brigade i fyned i Salem tua 15eg milltir i'r dwyrain o Holly Springs. Dyben yr anturiaeth oedd i croesi llwybr Van Dorn, yr hwn deallais oedd ar *full retreat*. Cawsom amser first rate yn Salem ond yr oeddym yn gorfod bod ar ein gwyliadwriaeth o hyd. Methasom yn ein hamcan. Fe basiodd Van Dorn mewn cyfeiriad arall, ond yr oedd ein meirchfilwyr ar ei holau.

Pan ddychwelais i Holly Springs cefais amser i fyned trwy'r dref i weled y galanastra a wnaeth y gelynion yno. Fe fu yn dref blodeuog ond nid yw yn awr ond un o'r pethau a fu. O Holly Springs aethom i Moscow, Tenn., 30ain mewn un diwrnod. Cychwynasom oddiyno boreu y dydd cyntaf o'r flwyddyn. Fe allaswn grybwyll mai yn Salem yr oeddwn ddydd Nadolig. Aethom allan i'r wlad i gael gwyddau i gynal y Nadolig, cawsom swper ardderchog. Yr oedd ein catrawd ar provost duty, a cafodd ein cwmni hen siop i gysgu ynddo.

Ond i ddychwelyd i Moscow. Cyrhaeddasom

D Ll J, 'Llythyr Milwr Cymreig', *Y Drych*, 14 Mawrth 1863

Ond i ddychwelyd i Moscow. Cyrhaeddasom Collierville prydnawn yr 2il. Gwersyllasom yn y fan hyn am tua bythefnos yn guardio'r rheilffordd. Yr oedd Cymro yn byw o fewn tua haner milltir o'n gwersyll. Ei enw oedd Davies, o Sir Gaerfyrddin. Y mae wedi bod yn y De er's haner can mlynedd, y mae wedi bron anghofio ei Gymraeg. Meddai wrthyf, "Can you siarad Cymraeg?" Dywedais y medrwn. Meddai, "mae genyf i lyfr in Cymraeg, I read that weithiau, ond nid yn often." Cefais llawer awr difyr efo fo. O Collierville aethom i Memphis lle y cawsom dâl am ddau fis, hyny yw, i fyny i Awst 31ain. Yn Memphis tarewais ar ddau Gymro, John T. Davis, 1st Sergeant yn Co. K, 16th Iowa, brodor o Carbondale, Pa., a William Roberts, dinesydd. Cefais amser pur hyfryd yn eu cwmni. Gadawsom Memphis yr 21ain o mis Ionawr. Yr oedd yr holl adran yn myned i lawr yr afon mewn badau.

Ar ol taith ddifyr o bum diwrnod glaniasom o fewn tua deuddeg milltir i Vicksburg. Cyfarfyddais a llawer o fechgyn Cymry perthynol i'r 23ain Wis. Ond ni chefais gyfle i fyned i'w gweled wed'yn. Yr oeddynt hwy yn gwersyllu gyferbyn a'r dref. Yr oeddynt yn gallu gweled pob peth oedd yn myned yn mlaen yn y dref.— Boreu y 29ain cynfis, cafodd ein brigade orchymyn i fyned i fyny yr afon. Glaniasom yn y fan hyn tua chan milltir o Vicksburg. Yr ydym yn brysur tori canal i gysylltu yr afon Mississippi efo'r Red River. Nis gwn y dyben os nad yd-

D Ll J, 'Llythyr Milwr Cymreig', *Y Drych*, 14 Mawrth 1863

Ar ol taith ddifyr o bum diwrnod glaniasom o fewn tua deuddeg milltir i Vicksburg. Cyfarfyddais a llawer o fechgyn Cymry perthynol i'r 23ain Wis. Ond ni chefais gyfle i fyned i'w gweled wed'yn. Yr oeddynt hwy yn gwersyllu gyferbyn a'r dref. Yr oeddynt yn gallu gweled pob peth oedd yn myned yn mlaen yn y dref.—Boreu y 29ain cynfis, cafodd ein brigade orchymyn i fyned i fyny yr afon. Glaniasom yn y fan hyn tua chan milltir o Vicksburg. Yr ydym yn brysur tori canal i gysylltu yr afon Mississippi efo'r Red River. Nis gwn y dyben os nad ydym yn myned i glirio'r Red River a'i agor. Pan ddechreuasom ar y canal, cymerodd y dinasyddion fraw, a gadawsant y dref rhag ofn eu gorlifo gan yr afon, ac yr ydym ni *in quiet possession* o'r dref. Y mae y bechgyn yn dyfod o hyd i bob peth sydd wedi ei gadael. Gwelais yn un o'r tents sofa hardd, spring bottom, yn cael ei usio fel bunk gan ddau, lle nad oedd braidd digon o le i un. Gwelais hefyd *Urn* costfawr yn cael ei usio i wneyd coffi i'r tent. Mae byrddau a chadeiriau yn dyfod i mewn bob dydd.

Mae'r niggers yn dyfod i fewn yn rhesi, ac yn cael eu gosod i weithio ar y canal. Nid ydym yn mwynhau iechyd o'r fath oreu er pan ydym yma, ond nid wyf yn meddwl na chaledwn ni iddi hi eto. Mae yma lawer o Guerrilla bands, ond

D Ll J, 'Llythyr Milwr Cymreig', *Y Drych*, 14 Mawrth 1863

nid ydynt yn ein trwblo ni. Mae yma Gymro yn byw ar plantation Gen. Sparrow, nid wyf wedi ei weled eto ond af yno rhai o'r diwrnodau nesaf. Mae Gen. Sparrow yn y Gydgynghorfa yn Richmond yn awr. Rhag eich blino gyda meithder terfynaf

Yr ydwyf, &c.,

D. LL. J., 16eg Wis.

---

ARALL.

Gwersyllfa ger Falmouth, Va.

MR. GOLYGYDD:—Meddyliais na fyddai yn anfuddiol gan amryw o ddarllenwyr parchus y DRYCH gael clywed ychydig o helynt ychydig Gymry sydd yn cynrychioli rhan o'r Gatrawd 102 Pa. Vol. Cafodd y gatrawd ei gwneuthur i fyny yn Pittsburgh, Pa., yn y flwyddyn 1861, ac oddiar hyny yr ydym yn cael cyfleustra i ffurfio barn lled gywir pa beth ydyw bod yn filwr; yr ydym wedi cael yr anrhydedd o gyd-ddioddef rhan o bwys a gwres y dydd, pa un y mae byddin ardderchog y Potomac wedi myned trwyddo oddiar ei sefydliad hyd yn awr. Mae yn dda genyf eich hyspysu fod dros 20 o Gymry yn ein catrawd, ac amryw o honynt sydd yn anrhydedd i'n cenedl. Mae rhai o'n cydgenedl a ddaethant allan yn llawen ac yn ewyllysgar i roddi help eu llaw i ddodi y gwrthryfel presenol i lawr wedi cyfarfod eu tynged, ac wedi cael eu chio dros chareufwrdd amser i ymddangos ger bron brawdle Crist; rhai wedi eu lladd gan fwledau y gelynion yn y frwydr pan yn amddiffyn iawnderau ein gwlad, ac eraill trwy afiechyd a dderbyniasant wrth wasanaethu eu gwlad, ac y mae yn boenus genyf goffa am farwolaeth un o dder-

D Ll J, 'Llythyr Milwr Cymreig', *Y Drych*, 14 Mawrth 1863

+

Ioan Emlyn, 'Llythyr Milwr Cymreig', *Y Drych*, 14 Mawrth 1863

baru lled gywir pa beth ydyw bod yn filwr; yr ydym wedi cael yr anrhydedd o gyd-ddioddef rhan o bwys a gwres y dydd, pa un y mae byddin ardderchog y Potomac wedi myned trwyddo oddiar ei sefydliad hyd yn awr. Mae yn dda genyf eich hyspysu fod dros 20 o Gymry yn ein catrawd, ac amryw o honynt sydd yn anrhydedd i'n cenedl. Mae rhai o'n cydgenedl a ddaethant allan yn llawen ac yn ewyllysgar i roddi help eu llaw i ddodi y gwrthryfel presenol i lawr wedi cyfarfod eu tynged, ac wedi cael eu chio dros chareufwrdd amser i ymddangos ger bron brawdle Crist; rhai wedi eu lladd gan fwledau y gelynion yn y frwydr pan yn amddiffyn iawnderau ein gwlad, ac eraill trwy afiechyd a dderbyniasant wrth wasanaethu eu gwlad, ac y mae yn boenus genyf goffa am farwolaeth un o dderbynwyr a darllenwr cyson o'r DRYCH, sef y brawd parchus yn yr Arglwydd, Edward Watkins, o'r gwaith efydd, Pittsburgh, ac fe ddichon y byddai yn dda gan amryw o ddarllenwyr y DRYCH yn Pittsburgh, ag oedd yn ei adwaen, gael clywed gair neu ddau o'i helynt pan oedd yn filwr. Yr oedd Watkins yn filwr gwladgarol, yn un ag oedd yn gwneuthur pob gorchwyl a fuasai yn cael ei ofyn iddo heb achwyn dim, a phan y buasai y gatrawd yn cael ei galw i fyned i'r frwydr, yno yr oedd ef yn wastadol yn llanw ei le yn y cwmni ac yn myned at y gorchwyl mor dawel ac mor ddiofn o'r perygl a phe buasai yn myned at ei orchwyl gwaith y boreu yn nhref, ac y mae yn dda genyf ddweyd wrthych fod pawb yn y cwmni o'r swyddog uchaf i lawr at y milwr cyffredin yn cyd dystiolaethu ei fod yn filwr da a gonest. Dioddefodd ein cyfaill parchus am amser maith gyda'r dolur rhydd, pa glefyd a fu yn achos o'i farwolaeth. Cafodd ei *ddischarge* ar y cyntaf o fis Awst, ond ni fu byw ond tair wythnos ar ol cyrhaedd adref pryd y bu farw, gan adael gwraig a dau o blant i alaru am eu colled. Yr oedd Watkins yn ddyn crefyddol, yn aelod parchus yn eglwys Annibynol Pittsburgh, ac yr oedd ei ymddygiadau tra yn fyw yn tystiolaethu yn eglur fod marw yn elw tragwyddol iddo.

Yn awr terfynaf, gan roddi gwybod i chwi ein bod yn dri Cymro o'r gwaith *Copper*, sef John Griffiths, Jacob B. Evans, o'r *Hill*, a John E. Williams. Yr ydym oll yn mwynhau iechyd rhagorol. Diolch i Dduw am hyny. Yr eiddoch yn barchus,

IOAN EMLYN.

Ioan Emlyn, 'Llythyr Milwr Cymreig', *Y Drych*, 14 Mawrth 1863

JOSEPH R. DAVIES.

Fayetteville, West Virginia,
Mawrth 9fed, 1863.

ANWYL DDRYCH:—Wrth edrych dros dy g ofnau ardderchog, a gweled amryw lythyrau od wrth rai mwy dysgedig o'm cenedl, teimlaf m ofer yw i mi feddwl cael gwrandawiad, pe byd ai y DRYCH fel y rhan fwyaf o foneddigion [?] e hamser ni, ond deallaf dy fod yn barod i wrand gair oddiwrth y pellaf o'th ddarllenyddion, hy yn nod *high private*, ac felly cymeraf gysur. Y ydym ni wedi bod yma yn y mynyddau trwy gauaf, sydd newydd ymadael, ac heb ddiodde llawer iawn gan oerfel na chystudd er pan y dan fonwyd y gwrthryfelwyr oddiyma yr Hydref diweddaf. Nid oes rhyw lawer o fywiogrwyd yn mysg y pethau milwrol, ond tebyg na wnei un symudiad yn mlaen oddiyma trwy'r haf canlynol, am fod y rhan fwyaf o'r milwyr wedi eu symud oddiyma i bob parthau o'r wlad, ond y rhan fwyaf i Vicksburg, lle y maent wedi gweled y gelyn cyn hyn, tebygaf, a gobeithiaf gyda mwy o lwyddiant na phan yr ymladdasant o'r blaen, a chan hyny nid oes ond byddin fach iawn yn awr yn dal dyffryn y Kanawha, ac y mae yn debyg llai na fu yma er pan y dechreuodd y rhyfel, ond credir fod gan y gelyn ddigon o waith mewn llefydd eraill yn bresenol heb un meddwl am gael ychydig halen o'r dyffryn yma fel ag oedd ei arferiad o'r blaen, ond pa fodd bynag bydd

Howell G. Hopkins, *Y Drych,* 28 Mawrth 1863

llawer o feibion bradwriaeth yn gelaneddau meirwon oddiamgylch ein hamddiffynfeydd, y rhai ydynt y cryfaf a welais erioed, cyn y rhoddwn iddynt y fraint o weled afon y Kanawha, eto er lleied yw ein nifer.

Y mae ein Catrawd ni, sef yr 2il meirch Va. yn awr yn gwersyllu yn Piatt ar y Kanawha, ac oddeutu 40 milltir yn nes i afon Ohio oddiyma, ac y mae ein dau gwmni, sef B a C wedi aros yma dros y gauaf, ac felly wedi gweled mwy o wasanaeth na'r lleill, ac o ganlyniad y mae ein ceffylau mewn gradd isel iawn ac anabl i sefyll, ond ychydig ragor o galedi, ac os na cheir rhai newyddion bydd ein byddin yn fyr o feirchfilwyr yn y parthau hyn cyn hir. Y mae ein cydfilwr a'n cydwladwr, W. H. Powell, yn awr gartref yn glaf o'r Typhoid Fever, ond ein gobaith ni oll yw ei fod wedi ei adferyd erbyn hyn, am mai efe yw ein swyddog goreu, a chyn bo hir os adferir ei fywyd, bydd yn un o swyddogion goreu y wlad.

Y mae rhyw lawer o son yma gyda'r milwyr am y tylwyth diaflig a elwir, Democratiaid heddychol, y rhai a ymdrechant ddistrywio cyfansoddiad yn nghydag Undeb ein gwlad, ond yn lle ymwisgo dillad llwyd a chymeryd arfau fel bradwyr eraill, y maent yn nghanol eu cysuron a'u bendithion, ac ar aelwyd gysurus gartref, megis yn chwerthin am flinder, oerfel, a gwaed y milwr tlawd, a thros ei ben am wneyd unrhyw gyfamod a'r gelyn sydd wedi lladd cymaint o fil-

*Y Drych* – 28 Mawrth, 1863

Howell Hopkins

ei fod wedi ei adferyd erbyn hyn, am mai efe yw ein swyddog goreu, a chyn bo hir os adferir ei fywyd, bydd yn un o swyddogion goreu y wlad.

Y mae rhyw lawer o son yma gyda'r milwyr am y tylwyth diaflig a elwir, Democratiaid heddychol, y rhai a ymdrechant ddistrywio cyfansoddiad yn nghydag Undeb ein gwlad, ond yn lle ymwisgo dillad llwyd a chymeryd arfau fel bradwyr eraill, y maent yn nghanol eu cysuron a'u bendithion, ac ar aelwyd gysurus gartref, megis yn chwerthin am flinder, oerfel, a gwaed y milwyr tlawd, a thros ei ben am wneyd unrhyw gyfamod a'r gelyn sydd wedi lladd cymaint o filwyr yr Undeb, ac y maent am ddangos mai diwerth yw y gwaed a dywalltwyd yn barod dros ein hachos gwerthfawr; ond da genyf ddeall fod y milwyr yn mhob man fel yma yn penderfynu y gwnaent eu goreu dros yr achos. Pa fodd bynag, ac fel ag yr ydym wedi gweled ein cyd ddinasyddion yn cwympo wrth ein hochrau, felly ydym ninau yn foddlon cwympo cyn y taflem un diystyrwch ar ein baner serenog, na rhoddi unrhyw barth o'm gwlad i feddiant bradwyr mor uffernol a chanlynwyr Jeff. Davis. Gobeithiaf nad oes un Cymro o fewn ein Talaethau mor ddu ei galon a diofal am ei gymeriad i fod mewn cystlltiad a'r fath leng a'r Democratiaid heddychol, ac os oes un felly, gobeithiaf y caiff y fraint o weled y DRYCH, y Beibl, a phregethwr cyn ei farw. Ond yn awr terfynaf, rhag y byddaf yn cymeryd i fyny le rhyw un mwy gwerthfawr, gan ewyllysio pob peth yn dda i'r DRYCH a'i ddarllenwyr.

Ydwyf, yr eiddoch, HOWELL G. HOPKINS,
Co. B, 2il Virginia Cav.

*Y Drych* – 28 Mawrth, 1863

Howell Hopkins

*Y Drych* – 4 Ebrill, 1863

## Oddiwrth Fyddin y Cad. Foster.

*Y gwrthryfelwyr yn ymoeod ar Williamsburg, Va.—yn cael eu gorchfygu a'u gyru i gilio—llu arall yn ymosod ar Wingfield, N. C.—hwythau yn cael eu gorchfygu a'u gyru yn ol.*

*Caerfa Monroe, Mawrth* 29.—Ymosododd y gelynion heddyw y boreu, gyda meirchfilwyr a thraedfilwyr, a chawsant eu gorchfygu gan 5ed Gat. meirchfilwyr Penn, dan y Mil. Lewis. Gan-ol dydd heddyw, yr oedd y gelynion wedi cilio, ac yr oedd y Mil. Lewis wedi adosod ei gadwylwyr. Nid yw y golled wedi ei sicrhau.

Ymosododd y gelynion ar Wingfield, ar y Choyan River, a chawsant eu gorchfygu. Yr oedd llu y gelynion yn gynwysedig o 42ain North Carolina, a guerriliaid, dan y Mil. Brown.

Darfu i'r Is-swydd. McClane, gyda rhan o gwmni o Gat. 1af Gwirfoddlu North Carolina, gymeryd lloches mewn *blockhouse*, lle yr amddiffynasant eu hunain yn llwyddianus, ac wedi ymladd am awr a haner, curasant y gelynion ymaith.

Dranoeth daeth y Cad. Foster i fyny o Plymouth gyda thri chwmni, a phedwar cwmni o 11eg meirchlu Pa., a anfonwyd o Suffolk gan y Cad. Peck.

Llwyddodd y Mil. Brown i groesi y Chowan River, gyda rhan o'i filwyr. Ymosodwyd ar y gweddill yn agos i Edenton, a chawsant eu gwasgaru wedi ychydig o wrthwynebiad. Mae ein milwyr yn ymlid ar ol y rhai hyny yn y corsydd.

John W. Rowlands, 'Talfyriad o lythyr oddiwrth Filwr Cymreig', *Y Drych,* 4 Ebrill 1863

## Talfyriad o Lythyr oddiwrth Filwr Cymreig.

*Ystormydd y milwyr—Eu teimladau—Nad peiriant ydyw y milwr—Sefyllfa gysurus y Fyddin—Ei darpariaethau a'i rhagoriaethau ar eiddo holl fyddinoedd eraill y byd—Elfenau gwrhydri—Y Llw milwrol—Ei gysegroldeb a'i bwysigrwydd—Y rhwymedigaeth i'w gadw—Penderfyniad i'w gario allan—Dim troi yn ol—Aberthu y cwbl oll ar allor amddiffyniad undeb—Y Cyfansoddiad a chyfanrwydd yr Undeb—Ymorphwysiad ar Ewyllys Duw—Y milwr yn cario allan elfenau addysg foreuol—Crefydd yn talu y ffordd ar faes y frwydr—Llafur rhieni yn cael ei wobrwyo—Y milwr yn diolch am addysg ei Fam.*

SERCHUS HEN FFRIND.—Rhaid i'r milwr wynebu dwy storm: Storm y frwydr, a storm y tywydd; ac y mae y ddwy hyn yn ei brofi yn wron, neu yn llwfrddyn. Cawsom lnaws o dymhestloedd gerwin y Gauaf diweddaf; a byddai rhai milwyr yn tywallt *volleys* o gynddaredd, a melldithion ar benau yr Arlywydd, Ysgrifenydd Rhyfel, a swyddogion eraill, fel pe mai hwy oedd i lywodraethu yr elfenau yn eu holl weithrediadau. Ymddangosai hyn yn hynod amlwg pan y byddai rhai yn amddifad o ddillad priodol yn ystod tywydd caled. Eithr am danaf fy hun, nid oes genyf le i gwyno, canys y mae yn fy meddiant bob peth sydd angenrheidiol i wynebu storm flin, megys Coat India Rubber, Cap gloyw, digonedd o ddillad cynes, a chyflawnder o ymborth bob amser. Gwelais luaws, modd bynag, o'm cydfilwyr yn amddifaid o'r pethau uchod, i raddau; a byddwn, bob amser, yn teimlo i'r byw drostynt, er y dywed rhai pobl nad yw y milwr ond math o beiriant gyd ag enaid a chalon haiarn, heb un math o deimlad. Eithr nid *peth* felly ydyw y milwr; nage, nage, canys y mae yntau yn medru *teimlo*—ymserchu, a *wylo* ambell dro, hefyd. Ow, resyn fod neb yn tybio mai rhyw *fachine* haiarnaidd ydyw y milwr.

Mae rhai yn beio ar y fyddin hon, am nad oes ynddi yr angenrheidiau gofynol i wneyd y milwr yn gysurus. Meiddiaf ddweyd ein bod yn cael mwy o bob math o ddarpariaethau at wneyd byddin yn ddyogel a dedwydd nag un fyddin arall yn y byd. Ac, oddieithr fod dynion yn gwario eu harian trwy *gamblio* ac oferedd, bydd ganddynt, braidd bob amser, gyfleusdra i brynu rhyw ddanteithion, a dewis-bethau yn ol eu chwaeth. Gwneir pob ymdrech at ein cael yn ddedwydd; ond, mae yn wir fod ambell beth hynod anghysurus yn digwydd, mewn amryfusedd weithiau; eto, nid oes yr un dyn yn ei bwyll yn ymrestru heb ddisgwyl peth felly, a pharotoi ei feddwl i gyfarfod a phethau o'r fath; oblegid y mae y byd wedi cael digon o brawf bellach nad bywyd o hawddfyd ac esmwythder ydyw eiddo y milwr, gan hyny, hynod ynfyd yw y neb nad yw beunydd yn disgwyl anhawsderau, a chaledwaith. Eu goresgyn ydyw gwaith y milwr; i hyny yr aeth allan, a'i ddewrder mewn gwneyd hyny sydd yn ei godi yn wron.

Gofynech yn yr eiddoch y tro diweddaf a oeddwn yn *sefydlog* yn fy mhenderfyniad i wasanaethu fy nhymor milwraidd allan. Atebaf, *Ydwyf* HYD FARW! Yr wyf wedi cymeryd llw difrifol y gwasanaethwn fy Ngwlad Fabwysiedig am dymor penodol. Sylwch, yr wyf wedi myned ar fy llw, yn wirfoddol o flaen Duw a dyn yr aberthwn fy mywyd ar allor milwriaeth fy Ngwlad os byddai eisiau—y cai fy ngwaed ei dywallt, bob dyferyn i'r llawr os byddai hyny yn angenrheidiol er cadw i fyny urddas fy Ngwlad yn ei holl gyfreithiau, ei Chyfansoddiad a'i Hundeb—aethum ar fy llw mwyaf cysegredig a difrifol y rhoddwn fy nerth, fy ngofal, fy meddwl a fy mywyd i lawr er gallu-

John W. Rowlands, 'Talfyriad o lythyr oddiwrth Filwr Cymreig', *Y Drych*, 4 Ebrill 1863

ogi fy Ngwlad i ddarostwng y gwrthryfel drwg presenol. Ac, ydych chwi yn meddwl fy mod mor berffaith amddifad o bob gronyn o uniondeb, geirwiredd, dyfalbarhad, a gwroldeb ag i dori y llw yna? Gobeithio nad ydyw eich tybiaeth am danaf mor hynod o isel a hynyna. Na, *pe bawn yn gwybod y byddwn yn sicr o gael fy lladd mewn ymgyrch, o fewn wythnos i'r awr hon* NI ENCILIWN O'R FYDDIN; canys i hyn yma yr ymrestrais—i hyn yma y cymerais y cledd yn fy llaw—i hyn yma y codais y dryll ar fy ysgwydd, ac i hyn yma y codais fy llaw mewn llw o flaen y nef gyfiawn. Gwir fy mod yn euog o gyflawni lluaws o bethau ffol yn fy mywyd, ond ni fynwn, yn awr, ddamnio fy enaid yn wirfoddol trwy dori llw cyfiawn a gymerais yn wirfoddol. Nis gallwn, byth, gael moment o esmwythder wedi cyflawni y fath anfadwaith—y cyfryw a'm darostyngai i fod yn gwbl anghymwys i gymdeithas neb ond cymdeithas lladron, annudonwyr, a mathrwyr pob trefn, braint ac urddas—dyhirod nas gallant rodio wrth oleuni haul, nac edrych yn ngwyneb dyn gonest. Yr Arglwydd, yr Hwn "sydd Ryfelwr mawr" a'm gwaredo rhag y fath "*sorod pob dim*."

Anwyl Ffrind,—Er fod bywyd y milwr yn un caled, eto y mae anrhydedd y milwr yn fawr; y mae mewn *struggle* dros Ryddid, Uniondeb a Threfn; mae yn rhoddi ei ysgwydd i ddal i fyny deml Llywodraeth ryddgarol; mae yn codi ei fraich yn erbyn bradwriaeth gelynion a therfysgwyr, ac yn myned allan a'i fywyd yn ei law i'w aberthu ar allor llwyddiant ei Wlad. Yr wyf yn edrych ar fy sefyllfa yn nghanol y peryglon mwyaf, yn gwisgo urddas a phwysigrwydd digyffelyb. Yr wyf yn benderfynol, gan hyny o wasanaethu fy nhymor allan yn ffyddlon, a di-ildio; ac os aberth ir fy mywyd yn yr ymdrechfa galed hon ca fyned yn ewyllysgar. Y cwbl a ofynwyf ydyw ystyllen uwch ben fy medd gyd a'r geiriau hyn arni:—*Gwnaeth ei ddyledswydd yn anrhydeddus; bu farw yn achos ei Wlad Fabwysiedig; ac ni throdd ei gefn yn nydd y frwydr. Huned ei lwch mewn heddwch.*

Byddaf, weithiau, yn barod i ddymuno ar i'r llen gael ei chodi fel yr ymledai golygfeydd y dyfodol o flaen fy llygaid; ond, da yw fod llinynau y *pulleys* yn llaw yr Hwn sydd a'i "lywodraeth ar bob peth." Diameu mai gwell i ni fod "cymylau a thywyllwch o amgylch ei orseddfainc Ef," gan y gwyddom mai "cyfiawnder a barn yw ei thrigfa." Yn Nuw, yn unig y mae fy ngobaith.—Gwnaed a myfi fel y byddo da yn ei olwg. Cefais fy nysgu yn foreu ar liniau fy mam, ger yr hen Ddyfi ddolenog, i ddywedyd—"Gwneler dy ewyllys ar y ddaiar, megys y mae yn y nefoedd." Ychydig oedd hi yn ei feddwl y pryd hwnw mai ar fensydd gwaedlyd Virginia y buasai meddwl ei phlentyn yn plygu o'i fodd i ewyllys "Ein Tad." Yr wyf yn ofni, ar ol y cwbl, mai Cristion gwael ydwyf—rhy anniolchgar o lawer i Dduw, ac yntau wedi fy nghadw yn ddyogel yn nghanol cyni fer o beryglon dychrynllyd. Da fuasai i'm ffydd gael ei chryfhau. Ond, mae crefydd yn talu yn gampus ar faes y gwaed—prawf pellach o'r hen wirionedd, "Duwioldeb sydd fuddiol i bob peth." Y peth goreu a gefais yn fy mywyd oedd cael fy nghychwyn yn mhen ffordd crefydd a duwioldeb gan fy nhad a mam. Er i mi dori o'r llwybr da hwnw i anialwch gwag erchyll gwylltineb ac anystyriaeth, eto cofiais am dano yn nghanol y diffaethwch, ac ymdrechais chwilied am dano yn ol, ac yr wyf yn meddwl fy mod wedi ei gael drachefn. Yr eiddoch,

JOHN W. ROWLANDS,
Seargent Com. H, U. S. A.

John W. Hughes, 'Llythyrau Milwyr Cymreig', *Y Drych,* 11 Ebrill 1863

## Llythyrau Milwyr Cymreig.

Gwersyllfa ger Lake Providence,
La., Mawrth 13, 1863.

MR. GOLYGYDD :—Meddyliais y byddai newyddion o'r fan hyn yn dra dyddorol i rhai o'ch darllenwyr lluosog, yr hyn sydd yn achosi yr ychydig linellau canlynol. Wrth gyfeirio at y map, chwi welwch fod Lake Providence, yn sefyll ar lan yr afon Mississippi, yn ngogledd dwyreinbarth Talaeth Louisiana. Nid yw'r dref yn un o fawr o bwys, heblaw y saif yn agos i hen canal a dorwyd gan y Ffrancod yn ystod y French War, i ba ddyben nis gwn. Saif y dref ar un o'r swamps sydd yn hynodi y Dalaeth hon, a pan y gollyngwn y dwr i'r canal, bydd y rhan fwyaf o honi o tan y dwr. Yr ydym wedi gorphen tori o'r afon hyd i'r Lake, ac mae'r *Negro Brigade* yn awr yn brysur yn tori canal o'r Lake i Bayou Macon, yr hon a red i'r afon Tensas ac oddiyno i'r Red River. Yr ydym wedi trosglwyddo un bad (*propeller*) bychan dros y tir i'r Lake, ac mae yn awr yn cael ei usio i gario y● borth, &c., i'r rhai sydd yn gweithio y tu hwnt i'r Lake.—Mae yma yn awr ddwy adran o fyddin y Cad. Grant, sef McArthur's a Logan's.

Yr wyf yn gweled wrth ddarllen y papyrau newyddion fod pobl y Gogledd yn disgwyl llawer iawn oddiwrth y Cad. Grant. Yn awr gofynaf i un o addolwyr Grant, Pa beth a wnaeth o i greu y fath ymddiried ynddo, yn mhobl y Gogledd? Ai efe a blaniodd ac enillodd brwydr Donelson? Nag e, meddaf, y Cad. Smith (yr hwn a fu farw yn Pittsburg Landing) a'r Llyngesydd Foote, a blaniodd y frwydr, a dewrder digyffelyb y milwyr enillodd y dydd. Ai efe a blaniodd frwydr Shiloh? Fe allai, mae yn ddigon tebyg i rai o'i weithredoedd. Pwy enillodd brwydrau Juka a Corinth? Onid Rosecrans, clod idd●. Ond pwy gafodd y clod? Y Cad. Grant y rhan fwyaf o heno. Pellebrodd y Cad. Grant at y Cad. Halleck, ar ol brwydr Corinth yn debyg i'r hyn a ganlyn, "Yr ydym wedi enill buddugoliaeth gyflawn ar y gelyn yn Corinth, mae'r gelyn yn ffoi, *gorchymynais* y Cad. Rosecrans i'w erlid." Yn awr ni wybu Grant pa fodd y trodd y frwydr hyd nes oedd holl fyddin Rosecrans ar sodlau y gelyn, canys yr oedd y *communication* wedi ei dori rhyngddom a Jackson, Tenn., lle yr oedd Grant yn aros ar amser y frwydr. Ni ddilynaf ei weithredoedd yn mhellach, maent yn ddigon amlwg, ond i grybwyll y *meddwl uchel* sydd gan y milwyr am dano.—Llythyrenau cyntaf ei enw priodol i'w U. S. Grant, ond geilw y milwyr o yn C. S. Grant.—Nid wyf yn meddwl fod yn … weled buaswn yn angrhedu. Wel, fe allai eich bod yn meddwl fy mod wedi edifarhau dyfod i'r fath le: Ddim o gwbl. Mae gwrando ar y Negroaid yn siarad am y triniaethau y maent hwy yn ei gael yn ddigon a pheri i bawb fyned yn *soldiers.* Mae yn well genyf fi farw ar y maes yn anrhydeddus na chael dyfod adref. Y mae ar y Democratiaid eisiau cadw y Negro druan yn gaeth yn ei dywyllwch tan ddydd mawr y farn ddiweddaf. O! gresyn, onide? Yr wyf yn ceisio gweddio ar yr hwn sydd yn goruwch-lywodraethu dynion ddyrysu eu hamcanion.

Yr hyn oedd yn gwroli Dafydd brenin Israel i ymladd ac yn ei wneuthur yn llwyddianus yn ei holl frwydrau oedd, ei fod ef wrth fodd calon Duw, a Duw yn ei ddysgu a'i amddiffyn yntau. Pe byddai mwy o ymostyngiad yn ein hysbryd oedd ninau ger bron yr Arglwydd, ni byddem fawr o dro cyn cael buddugolaeth ar ein gelynion.

Arwyddion gwan o fuddugoliaeth yw cymeryd enw Duw yn ofer, chwareu cardiau, a *balls* meddir, a defnyddir pob math o lwon mwyaf ofnadwy all Satan eu dyfeisio, a byw yn groes i orchymynion Duw; ond da genyf eich hyspysu nad yw pawb felly. Cofiwch fi at bawb o'm hen gyfeillion.

JOHN W. HUGHES.

D Ll J, 'Llythyrau Milwyr Cymreig', *Y Drych,* 11 Ebrill 1863

Fort Halleck, Columbus, Ky.,
Mawrth 24ain, 1863.

HOFFUS GYFAILL, Y DRYCH : — Dyma fi, un o'th hen ddarllenwyr, yn treio ysgrifenu ychydig linellau i ti i'w cyhoeddi os gweli hwy yn deilwng. Yr wyf yn gweled mai dy hoff waith yw cyhoeddi llythyrau oddiwrth Filwyr Cymreig, gan hyny yr wyf yn teimlo yn fwy ffyddiog i anfon atat. Yr wyf wedi bod yn meddwl am anfon ryw ychydig o'n hanes fel Cymry yn y 31ain Gatrawd, Wisconsin. Yr ydwyf wedi gweled crybwylliad am danom yn y DRYCH unwaith neu ddwy, sef fod lot o Gymry yn perthyn i'r Gatrawd hon. Ond yr ydym ni ein hunain wedi methu casglu digon o nerth hyd yn hyn i anfon dim o'n hanes. Yr ydym wedi ymrestru yn Dodgeville, Wisconsin ; yr ydym yn rhifo o ugain i bump ar hugain, i gyd yn perthyn i'r un cwmni. Treuliasom ein hamser yn y Dalaeth oddiar pan ymrestrasom yn mis Awst diweddaf hyd y cyntaf o Fawrth, pryd y cychwynasom tua'r De. Gadawsom Racine tua chanol dydd Sul ; cyrhaeddasom Cairo, Ill., boreu dydd Mawrth oddeutu tri o'r gloch y boreu. Wedi i ni gyrhaedd yno cawsom *orders* i aros yn y *cars*, ac yno y buom nes oedd yn agos i ganol dydd, pan y cawsom ein galw allan a'n *marchio* i'r cae, lle mae y milwyr yn gwersyllu, ac wedi aros yno am ychydig a berwi lot o goffi, mi wnaethom gyfranogi o un o'r prydiau cysurus hyny mae Fewythr Sam yn roddi i'w fechgyn pan ar eu teithiau, sef crackers celyd, caws, a choffi ; yna ar ol cael y boliau mewn "trim," dyma orchym yn i ni fod yn barod drachefn i fyned ar y bâd i fyned i lawr tua Columbus. Wedi ein cael oll ar fwrdd y bâd, dechreuwyd codi...

D Ll J, ‘Llythyrau Milwyr Cymreig’, *Y Drych,* 11 Ebrill 1863

… a Jackson, Tenn., lle yr oedd Grant yn aros ar amser y frwydr. Ni ddilynaf ei weithredoedd yn mhell ach, maent yn ddigon amlwg, ond i grybwyll y *meddwl uchel* sydd gan y milwyr am dano.—Llythyrenau cyntaf ei enw priodol i'w U. S. Grant, ond geilw y milwyr o yn C. S. Grant.—Nid wyf yn meddwl fod yn iawn i'r milwyr criticisio ei brif swyddog, eto nid allwn llai na dweyd “gair neu ddau yn fyr.” Er pan ddechreuais ysgrifenu yr wyf wedi clywed fod yr *engineers* a'r Negro Brigade wedi dychwelyd o Bayou Macon, am nad allent weithio o herwydd dyfnder y dwr. Mae rhai yn meddwl y bydd rhaid rhoi y goreu i'r canal o herwydd hyny.

Mawrth 15fed, mae adran Logan yn symud heddyw, maent yn myned i fyny'r afon. Maent am rhoddi y goreu i dori'r canal, ond cyn yr ym adawn torwn y levee fel y dylifa y dwfr y wlad am filltiroedd.

Mawrth 17eg, yr wyf wedi oedi cyhyd o herwydd i mi glywed fod y levee yn cael ei dori.—Torwyd y prydnawn ddoe, mae'r dwr erbyn heddyw yn 6 troedfedd o ddyfnder yn y *channel.*—Mae'r dwr yn rhedeg mor gyflym nas gall bad ei groesi yn mhob man. Yr oedd ein cwmni ar provost duty yn y dref, a phrin y cawsom ein dodrefn i'r ochr deheuol i'r canal cyn i'r levee ymollwng. Mae yn debyg y treiant rhedeg *transports* ar y canal. Mae'r hin boeth yn dechreu dyfod. Mae y ddaiar yn wyrdd, a'r prenau ffrwythydd yn blodeuo. Y tro nesaf yr ysgrifenaf yr wyf yn gobeithio y caf grybwyll am gwymp Vicksburg.

D. Ll. J., 16eg Wis. Vol.

James J. Jones, 'Llythyrau Milwyr Cymreig', *Y Drych,* 11 Ebrill 1863

Ky., Mawrth 2, 1863.

Anwyl Gyfaill :—Dyma fi yn cymeryd fy ysgrif-bin yn fy llaw i ysgrifenu ychydig o linellau atoch gan obeithio y byddwch mewn iechyd i'w derbyn fel ac yr ydwyf fi yn awr. I'r hwn sydd yn eich cynal chwi a minau y byddo y diolch. Derbyniais eich caredig lythyr yr 8fed o Chwef., a da oedd genyf ei gael. Nid oes genyf ddim newyddion o bwys i'w hyspysu i chwi. Mae yn debyg eich bod yn clywed oddiwrthym bob wythnos, ac felly chwi a welwch, frawd, fod yn anhawdd i mi ddanfon fawr o newyddion i chwi. Y peth sydd ar fy meddwl i yn benaf yn awr yw fod y Canwriad wedi cyhoeddi deddf newydd, a dyma hi — "Fod yn rhaid i ni sefyll y *guard*, bydded y tywydd fel ac y bo rhaid i ni *farchio* 50 llath yn ol ac yn mlaen heb gymaint a chael mynyd i dwymno ein traed ; go ddrwg, onide ? Mae llawer o bethau mewn milwriaeth na wyr neb arall ddim trwy brofiad am danynt ond y milwr ei hun, fel y dywedodd y Parch. W. Jones, Wis., yn ei bregeth : "Pan mae y morwr ieuanc yn dysgu *navigation* mae ganddo *fap* o'r holl fyd, ond nid yw y noswaith dywyll ar y *map* ond mae yr hen forwr yn gwybod trwy brofiad am hono, felly y milwr wrth ei orchwyl. Pe buasai rhyw un yn dweyd wrthyf yr hyn a welais cyn i mi ei

... gyfranogi o un o'r prydiau cysurus hyny mae Fewythr Sam yn roddi i'w fechgyn pan ar eu teithiau, sef crackers celyd, caws, a choffi ; yna ar ol cael y boliau mewn "trim," dyma orchymyn i ni fod yn barod drachefn i fyned ar y bâd i fyned i lawr tua Columbus. Wedi ein cael oll ar fwrdd y bâd, dechreuwyd codi agerdd a symud i lawr ; cyrhaeddasom y lle oddeutu gostyngiad haul, ac wedi aros ar y bwrdd am yn agos i ddwy awr, dyma orchymyn eto i bawb ddyfod allan, ac wedi ffurfio yn llinell dyma'r *Band* yn dechreu chwareu a ninau yn cael gorchymyn i gychwyn i fyny tua'r Gaerfa, yr hon sydd ar ben bryn uchel i'r Dwyrain o'r dref ; wedi cyrhaedd tu fewn i'r clawdd, dyma'r swyddogion yn cael gorchymyn i gasglu i'r canol i ymddiddan a'r Colonel, a'r gyfrinach oedd fod i bob swyddog orchymyn i'w gwmni wneyd eu goreu o'u ffordd am le i aros dros y nos ; ar hyn dyma bawb i'w ffordd, rhai a aethant i'r tents at y milwyr oedd yma yn barod, eraill a gyweiriasant eu gwelyau dan y wageni ac yn mhlith y gwair oedd ganddynt at borthi'r mulod, a rhwng pob man yr wyf yn barnu i bawb wneyd yn lled dda ar y cwbl. Dranoeth ni gawsom bebyllau, ac Oh'r gweithio oedd yma y diwrnod hwnw i osod i lawr ein pabelli, ac oddiar hyny hyd yn awr yr ydym yn gwneyd yn lled dda. Y mae chwech o honom yn mhob pabell, ac mae dwy babell yn ein cwmni ni yn cael eu dal gan Gymry yn hollol, ac os deui di, gyfaill, y DRYCH, i ymweled a ni ryw dro i Fort Halleck, cei afael yn yr ysgrifenydd yn South Wales ar Iowa Street. Y mae yma Gymry eraill yn y babell hon heblaw fi sydd yn gyfeillion cywir i ti, ac os gweli ryw deilyngdod yn y llinellau hyn ddigon i'w cyhoeddi, ryfeddaf flewyn na chai di ambell lythyr bach oddiwrth rai o honynt hwy hefyd.

Does dim rhyw lawer o filwyr yn y lle hwn yn awr, er hyny mae y bechgyn yma am gael y sport o chwareu tipyn a'r "Butter Nuts" yn fan hon trwy eu bod yn teimlo yn bur galonog tra byddont tu fewn i'r Gaerfa hon. Yn wir, purion peth fyddai cael rhyw gysgod rhag y bwledau hefyd, yn enwedig pan fo rhai yn dechreu ar y fath orchwyl a rhyfela. Yr ydym ni wedi d'od i lawr yma gyda'r bwriad o gael treio ein dwylaw ar y *Rebels*, ac os byth y cawn ni ein dwyn i wynebu y creaduriaid bryntion hyny, galli di fentro Mr. DRYCH, y rhydd y "bloody" 31st dwll yn eu rhengau na chauir mo hono am dro, ac os caf fi y fraint o ddyfod allan yn iach, rhof wybod i ti pa fodd y bu.

Yn awr, rhag dy flino a meithder mi derfynaf. Rhof hanes mwy manwl o bethau y tro nesaf, os caf anogaeth genyt ti i hyny.

Dymunaf hyspysu pawb o'm cyfeillion yn Dodgeville a manau eraill ein bod ni oll yn iach ac yn teimlo yn gampus wrth ein bodd, ac yn ddigon calonog i wynebu y gelynion unrhyw amser. Hyna oddiwrth dy ewyllysiwr da,

JAMES J. JONES,
Company C, 31st Regiment, Wisconsin Vol.